# Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

## Beth yw YGG?




YGG yw unrhyw ymddygiad yr ydych yn credu a all achosi gofid i rywun, ac sy'n anghywir neu yn erbyn y gyfraith.

## Beth yw'r Gyfraith?

Gall y gweithredoedd a'r ymddygiadau o fewn digwyddiadau YGG fod yn droseddau. Mae gan yr Heddlu bwerau a chyfreithiau amrywiol i'w cynorthwyo i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw cymunedau'n ddiogel.




## Beth fedra i wneud fel rhiant/gofalwr?



Argymhellir eich bod chi'n siarad â'ch plentyn am YGG. Esboniwch sut y gall eu hymddygiad effeithio ar eraill a sut y gellid ei ddehongli, a'u hannog i fod yn ofalus ac ystyriol. Mae'n bwysig hefyd i'w gwneud nhw'n ymwybodol o'r canlyniadau ar eu cyfer nhw a'r teulu os ydynt yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

**www.SchoolBeat.cymru**

Heddlu Police
DYFED-POWYS

## Cyn i'ch plentyn fynd allan, gofynnwch iddynt:

- Beth maen nhw'n bwriadu gwneud?
- I ble maen nhw'n mynd?
- Gyda phwy maen nhw'n mynd?
- Pa amser fyddan nhw'n dod adref, a sut?

## Gofynnwch wrthynt am:

- Feddwl am yr hyn maen nhw'n ei wneud.
- Beidio ag achosi gofid neu niwsans i eraill.
- Beidio â difrodi eiddo.
- Beidio â rhoi eu hunain neu eraill mewn perygl.

## Mynediad at Alcohol:

- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a damweiniau'n aml yn gysylltiedig ag alcohol. Mae plant yn aml yn ei gymryd o'u cartref heb yn wybod i'w rhieni.
- Cadwch alcohol mewn man diogel.
- Cadwch lygad rheolaidd ar yr alcohol sydd gennych er mwyn gwybod pa un ai a yw wedi'i gymryd.

## Gall pobl ifanc ddioddef trosedd ac anhrefn hefyd

Sicrhewch eu bod nhw'n medru cysylltu ag oedolyn unrhyw bryd.

Gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n gwybod sut i ddefnyddio gwasanaethau **101** a **999** yr heddlu.